# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Iau, 6 Rhagfyr 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, J.M. Charles, C.A. Davies, P.M. Edwards, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones, J.S. Phillips, E.G. Thomas, D.E. Williams a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
M. Heath, Swyddog Trwyddedu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthyol

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, 10.00 - 11.00 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd A.S.J. McPherson.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. MR DOUGLAS GLYNDWR THOMAS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Douglas Glyndwr Thomas o Iron Gate Lodge, Talyllychau, Llandeilo, Caerfyrddin am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Thomas ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Thomas yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Douglas Glyndwr Thomas am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 4. MR SIMON JOHN GRIFFITHS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Yn unol â Chofnod 6 o'i gyfarfod ar 24 Hydref, 2018, bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Simon John Griffiths o 36 Harddfan, y Bryn, Llanelli, am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Griffiths ynghylch ei gais.

Cafwyd sylw gan ddarpar gyflogwr Mr Griffiths o blaid ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Griffiths yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Simon John Griffiths am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 5. MR BERNARD PRICE - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Yn unol â Chofnod 7 o'i gyfarfod ar 24 Hydref, 2018, bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Bernard Price o 159 Trilwm, Trimsaran, Cydweli am adnewyddu ei drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Price ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Price yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Bernard Price am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 6. MR SIMON MARTIN VAUGHAN - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Simon Martin Vaughan o 9 Carregamman Isaf, Rhydaman am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Vaughan ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Vaughan yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Simon Martin Vaughan am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 7. MR BRIAN WOOLOFF - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr Brian Wooloff o 9 Lôn yr Ysgol, Llanelli am adnewyddu ei drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Wooloff ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr. Wooloff yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNWYD cynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Brian Wooloff am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

**8.1. 24AIN HYDREF, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2018 yn gofnod cywir.**

**8.2. 13EG TACHWEDD, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir.**

| ________________________ | ________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |